------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 9 Rhagfyr 2014**

Amser:
**09.00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Steve George**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru


## Agenda - Dogfennau Ategol

### Brif Aelodau a gohebiaeth ychwanegol ar gyfer eitem

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon** (Tudalennau 1 - 35)

**P-04-607 Galw ar Lywodraeth Cymru i brynu Garth Celyn** (Tudalennau 36 - 39)

**P-04-541 Cefnogaeth i'r Mentrau Iaith** (Tudalennau 40 - 42)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Nodyn #1

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor

Hoffwn ddal ar y cyfle i anfon gair atoch i annog y Llywodraeth i ddal ar yr unig gyfle i sicrhau un o leoliadau pwysicaf Cymru ar gyfer y genedl. Mae gwir angen Ymddiriedolaeth i sicrhau bod Garth Celyn yn eiddo i'r genedl, a'r unig ffordd o sicrhau hyn yw bod y Llywodraeth yn gwario arian y genedl i sicrhau fod un o adeiladau pwysicaf ein hanes yn cael ei fwynhau gan genedlaethau sydd i ddod.

Er gwaetha'r cyfyngiadau ariannol presennol , mae angen o dro i dro edrych ar y darlun ehangach, ac ystyried fod pethau sydd ar hyn o bryd o fewn ein gafael, o bosib o fewn perygl o gael eu colli am byth. Mae Garth Celyn yn y fantol, ac mae angen i'r Cymry hawlio eiddo'r Cymry.

Dymuniadau gorau ar y trafodaethau.

Yn gywir

Tudur Dylan Jones

# Nodyn #2

Annwyl Syr

Ysgrifennaf atoch ynglŷn a dyfodol Garth Celyn, catref hanesyddol Tywysogion Cymru yn Abergwyngregyn.

Ers nifer o flynyddoedd bellach bum yn tywys criwiau o bobl ifainc yn enw Urdd Gobaith Cymru yn flynyddol ar daith i Ogledd Cymru i ddysgu am ein hanes a'n hetifeddiaeth fel rhan o'u cwrs lefel A Cymraeg ail iaith. Fel rhan o'r cwrs maent yn astudio ddrama Saunders Lewis – SIWAN.

Mae Kathryn Gibson, perchenog Garth Celyn, sydd hefyd yn hanesydd o bwys, wedi roi blynyddoedd o'i hoes i wneud ymchwil manwl a chynhwysfawr ar hanes Garth Celyn. Mae hi wedi profi tu hwnt i bob amheuaeth taw dyma oedd pencadlys Tywysogion Cymru. Mae haneswyr eraill yng Nghymru a nifer fawr o unigolion a chyrff ein gwlad wedi ategu'r ymchwil yma a nodi pwysigrwydd yr adeilad hynafol yma yn ein hanes.

Mae Kathryn wedi bod yn agor drysau ei chartref a chroesawu pobl o bob oed o bob cwr o Gymru a thu hwnt i mewn i'w chartref ers amser maith ac mae ei hymrwymiad i adrodd cefndir pwysig Garth Celyn yn unigryw a gwerthfawr.  Mae hanes Tywysogion Cymru yn hynod o bwysig ac fe ddylai phob ysgol yng Nghymru fod yn trosglwyddo'r darn pwysig yma o'n hanes i genedlaethau'r dyfodol.

Trist iawn felly oedd clywed fod ddyfodol Catref ein Tywysogion yn afantol a braf oedd clywed am ymgyrch Kathryn i sicrhau dyfodol y tŷ. Credaf yn gryf fod gan cyrff megis CADW, Comisiwn Henebion Cymru, Cyngor Gwynedd ac yn sicr Cynulliad Cenedlaethol Cymru dyletswydd i sicrhau dyfodol Garth Celyn i'r  cenedlaethau a ddaw.

Edrychaf ymlaen at glywed canlyniad y drafodaeth yn y Pwyllgor Deisebu yn y Cynulliad a mawr obeithio taw dechrau yn unig yw hyn ac y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn sicrhau fod Garth Celyn yn cael ei warchod a'i datblygu fel safle o bwys hanesyddol i bawb yng Nghymru yn y dyfodol agos.

Yr eiddoch yn gywir

Helen Greenwood,
Swyddog Datblygu Rhanbarth Gwent,
Urdd Gobaith Cymru

Swyddfa'r Urdd (Rhanbarth Gwent),Ty'r Ysgol, Stryd Holland, Glyn Ebwy, Blaenau Gwent. NP23 6HT. Ffôn: 01495 350155 /  Ffacs: 01495 306867.E-bost: HelenG@Urdd.org

## Nodyn #3

Annwyl Bwyllgor Deisebau,

Anfonaf atoch i gefnogi'r alwad ar i Lywodraeth Cymru brynu Garth Celyn er mwyn digoelu'r safle i'r cenedlaethau sydd i ddod. Mae'r lleoliad yn rhan o'n treftadaeth ac mae'n hanfodol i'w gadw. Yn anffodus, mae'r safle mewn perygl o gael ei werthu a'i ddatblygu.

Rydym fel ysgol yn teithio'n gyson i'r gogledd i ymweld â lleoliadau pwysig yn hanes Llenyddiaeth Cymru. Garth Celyn yw'r lleoliad sydd wastad yn cynnig y blas

gorau i'n myfyrwyr o ffordd arbennig o fyw. Gallant ddychmygu'r ddrama 'Siwan' yn digwydd o flaen eu llygaid yn y lleoliad arbennig hwn.

Mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau bod ein pobl ifanc yn dod i wybod hanes y lle arbennig hwn. Ymbiliaf arnoch i gefnogi'r cais.

Gyda diolch,

Lowri Davies,

Pennaeth Cymraeg

Ysgol y Strade,

Llanelli

## Nodyn #4

Annwyl Bwyllgor Deisebau,

Hoffwn gefnogi yr alwad ar lywodraeth Cymru i brynu Garth Celyn. Mae'r lle mewn perygl o gael ei werthu a'i ddatblygu, ac fel rhan gwerthfawr o'n hanes ni fel cenedl, dylid prynu'r lle i ddiogelu lle i'r cenedlaethau i ddod, ac i sicrhau fod hanesion Garth Celyn yn cael eu cofio.

Yn gywir

Dylan Nicholas

## Nodyn#5

Rwy'n cefnogi'r alwad ar Lywodraeth Cymru i brynu Garth Celyn er mwyn ddiogelu'r lle i'r cenedlaethau sydd i ddod. Mae'r lle mewn perygl o gael ei werthu a'i ddatblygu. Mae angen sicrhau bod ein pobl ifanc y dyfodol yn dod i wybod yr hanes.

Yn gywir,

Fflur Mathias

# Nodyn#6

Annwyl Bwyllgor Deisebau,

Hoffwn gefnogi yr alwad ar lywodraeth Cymru i brynu Garth Celyn. Mae'r lle mewn perygl o gael ei werthu a'i ddatblygu, ac fel rhan gwerthfawr o'n hanes ni fel cenedl, dylid prynu'r lle i ddiogelu lle i'r cenedlaethau Annwyl Bwyllgor Deisebau

Rwy'n deal bod deiseb wedi ei chyflwyno i'r Llywodraeth yn annog pryniant o dir Garth Celyn.

Hoffwn gefnogi'r nod yma gan gofio bod y safle o ddiddordeb cenedlaethol I Gymru. Mae sicrhau dyfodol y tir yma  o ddiddordeb i'n treftadaeth ni fel cenedl.

Diolch

Aled Williams, Penrhos,,Heol Maesyffynnon,Caerfyrddin,SA31 1DZ

# Nodyn #7

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor,

Deallaf y byddwch yn trafod sefyllfa Garth Celyn dros y diwrnodau nesaf. Mae arwyddocad y lle o ran ein hanes yn hen gyfarwydd i chi heb os, ond hoffwn dynnu eich sylw at ei rôl yn y cyfnod diweddar hwn fel atynfa i gannoedd o ddisgyblion ysgol. Dros y blynyddoedd diwethaf hyn, cafodd byseidiau o blant eu gwefreiddio wrth ymweld â'r lleoliad, a chael dysgu am eu treftadaeth mewn ffordd fythgofiadwy. Dyma gartref sy'n gallu agor nifer o ddrysua'r Cwricwlwm Cymreig, ac sy'n rhoi cyfle i unigryw i ymwelwyr ddod i ddeall am batrymau byw Cymry ddoe mewn modd uniongyrchol a chyffrous. Hyderaf y byddwch yn gwneud popeth posib i gadw'r trysor hwn yn nwylo'r genedl.

Yn gywir

Mererid Hopwood

2 Lôn Rhianfa

Ffynhonne

Abertawe

SA1 6DJ

heini@gruffudd.org

William Powell AM

Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

Tŷ Hywel

Bae Caerdydd

CAERDYDD

CF99 1NA

3 Rhagfyr 2014

Annwyl Mr Powell

**Deiseb: P- 04-541 Cefnogaeth i'r Mentrau Iaith**

Hoffwn ddiolch i chi ac i'r pwyllgor am roi ystyriaeth fanwl i'r ddeiseb a luniwyd gennym i gefnogi gwaith y Mentrau Iaith, ac i geisio sicrhau eu bod yn cael cyllid digonol sy'n cyfateb i alwadau cynllunio ieithyddol yng nghyd-destun adfer y Gymraeg.

Atodaf lythyr gan Fentrau Iaith Cymru sy'n cydnabod y datblygiadau a fu yn y drafodaeth ar hyd y misoedd diwethaf.

Rydym yn derbyn yn llawen farn y Prif Weinidog fod gan y Mentrau Iaith rôl ieithyddol allweddol, ac rydym yn gwerthfawrogi ei gynnig i gwrdd â ni i drafod hyn ymhellach.

Byddaf yn sgil hyn yn cysylltu â'r Prif Weinidog i drefnu cyfarfod er mwyn parhau'r drafodaeth ar lefel gweinidog.

Llawer iawn o ddiolch ichi eto, ac edrychaf ymlaen at glywed canlyniad trafodaeth eich pwyllgor ar y ddeiseb.

Yn gywir,

Heini Gruffudd

Cadeirydd

Dyfodol i'r Iaith

Mentrau Iaith Cymru

2 Rhagfyr 2014

Mr William Powell, Cadeirydd Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

Annwyl Mr Powell,

Ysgrifennwn mewn ymateb i'r ohebiaeth ddiweddaraf rhwng y Pwyllgor Deisebau a'r Prif Weinidog, sef y llythyr dyddiedig 17 Tachwedd 2014.

Hoffem ddechrau trwy ymateb i'r sylw yn llythyr y Prif Weinidog ynglŷn â'r cynnig i gomisiynu adolygiad annibynnol o strwythurau'r Mentrau Iaith fel rhan o'r pecyn cyllido ar gyfer 2014-15. Cafwyd penderfyniad unfrydol i beidio â derbyn y cynnig hwn gan y rhwydwaith o Fentrau a gan Bwyllgor Gweithredol Mentrau Iaith Cymru mewn cyfarfod Cenedlaethol Mentrau Iaith Cymru ym mis Gorffennaf 2014 am ddau brif reswm. Yn gyntaf, nid oedd y cynnig wedi son yn benodol am gynnal asesiad annibynnol o'r adnoddau sydd angen ar y Mentrau iddynt ddatblygu a gweithredu i'w potensial llawn ond yn hytrach yn canolbwyntio'n benodol ar strwythurau, sef maes oedd o fewn cwmpas yr adolygiad a gynhaliwyd yn 2012. Yn ail, rhoddwyd amcan gost gan Llywodraeth Cymru o £150,000 ar gyfer y gwaith ymgynghorol hwn, cost fyddai'n cael ei dynnu oddi wrth y cyllid ychwanegol i'r Mentrau (£750,000 ar y cyfan) a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014.

Oherwydd y pwyntiau uchod cafwyd penderfyniad gan y Mentrau i beidio â derbyn y cynnig gan nad oedd yn ymateb i'n gwir anghenion, ac yn fwy difrifol, byddai'n

golygu llai o adnoddau yn cyrraedd y Mentrau eu hunain ar gyfer eu gwaith holl bwysig o hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn eu cymunedau.

Fel y mae'r Prif Weinidog yn sôn yn ei lythyr, rydym ar hyn o bryd yn trafod y pecyn cyllido ar gyfer yr adnoddau ychwanegol gyda Swyddogion Llywodraeth Cymru ac fe fyddwn ni'n parhau i drafod a chydweithio er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau hynny.

Rydym hefyd yn croesawu sylwadau'r Prif Weinidog ynglŷn â rôl y Mentrau fel rhan annatod o'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.  Cytunwn yn llwyr fod angen i rôl a dylanwad y Mentrau gryfhau wrth i'r maes cynllunio ieithyddol yng Nghymru ddatblygu.  I'r perwyl hwn mae'r cyllid ychwanegol o £750,000 dros ddwy flynedd yn cynrychioli buddsoddiad ychwanegol i'w croesawu *fel cam cyntaf* yn y broses o gryfhau a datblygu ein gwaith.  Mae angen adnoddau pellach, dros dymor hwy, ynghyd â sicrwydd ariannol tymor hwy ar y Mentrau er mwyn iddynt ddatblygu a thyfu i gwrdd â'r heriau y mae'r Gymraeg yn ei wynebu ac i'w paratoi i chwarae rôl lawn yn y maes cynllunio iaith yng Nghymru fel y mae'r Prif Weinidog wedi sôn.  Yn ein hymateb gwreiddiol i'r adolygiad o waith y Mentrau Iaith rydym yn galw am fuddsoddiad ychwanegol o £3.1m dros dair blynedd.  Rydym ni dal i gredu'n gryf bod angen yr adnoddau hyn er mwyn datblygu fel cyrff sydd â dylanwad digonol i weithredu dros y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o Gymru, gyda'r gallu i gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o weld y Gymraeg yn ffynnu a chyrraedd nodau'r strategaeth iaith.

Fe fydd Mentrau Iaith Cymru yn trafod y materion sydd wedi codi yn sgil y ddeiseb gan Dyfodol i'r Iaith yn uniongyrchol gyda'r Prif Weinidog a Llywodraeth Cymru o hyn ymlaen, gan ein bod mewn trafodaethau gyda nhw yn barod.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor Deisebau a Dyfodol i'r Iaith am eu gwaith yn ystod y broses o gyflwyno'r ddeiseb a'r ohebiaeth sydd wedi dilyn.  Mawr obeithiwn gydweithio â chi eto yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,



Meirion Ll Davies

Ar ran Pwyllgor Gweithredol Mentrau Iaith Cymru